**EPT-04-01 (p 2)**

**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 7 Mawrth 2001 |
| **Amser:** | 2.00 hyd 5.00 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## CADW – CYNLLUN CORFFORAETHOL A THARGEDAU STRATEGOL

***Diben***

Bob blwyddyn ariannol bydd Cadw yn cynhyrchu Cynllun Corfforaethol drafft ac yn argymell targedau strategol ar gyfer y deuddeg mis i ddod. Mae’r papur hwn yn ceisio barn y Pwyllgor ar y cynllun a’r targedau drafft, cyn i Weinidog y Cynulliad eu hystyried.

***Crynodeb/Argymhellion***

Mae’r Cynllun yn nodi prif weithgareddau’r Asiantaeth a gaiff nawdd cyllideb rhaglen gros o £9,926k a darpariaeth costau rhedeg uniongyrchol o £4,680k, ac mae’n argymell targedau perfformiad ar gyfer y flwyddyn i ddod. Gwahoddir y Pwyllgor i gymeradwyo’r Cynllun a’r targedau drafft.

***Amseru***

Y nod bob blwyddyn yw sicrhau bod Cynllun a thargedau cymeradwy yn eu lle cyn dechrau’r flwyddyn ariannol y maent yn perthyn iddi.

***Cefndir/Ystyriaeth***

Yn Atodiad A i’r drafft mae esboniad byr o’r targedau, sydd hefyd yn nodi’r canlyniad yn eu herbyn ym 1999-2000 a’r canlyniad tebygol yn 2000-01.

Penderfynwyd ar yr allbwn i’w fesur yn y targedau strategol ym 1994-95 pan adolygwyd yr Asiantaeth ddiwethaf, ac eithrio’r gost net fesul targed ymwelwyr (rhif 11), a gyflwynwyd ym 1996-97. Fodd bynnag, mewn termau meintiol newidiodd y targedau dros amser. Er enghraifft,

cododd nifer y rhestrau ailarolygu i'w cwblhau (targed 2) o 40 ym 1994-95 i 80 ar hyn o bryd. Rydym yn argymell y dylid cynyddu dau darged (rhif 3 a rhif 6) yn 2001-02.

Bydd Cadw yn cynyddu prisiau mynediad i'r henebion dan ei gofal – a phrisiau eraill cynnyrch a gwasanaethau – fwy neu lai yn unol â chwyddiant yn 2001-02, ar ôl i'r Pwyllgor gymeradwyo hyn yn ei gyfarfod ar 15 Tachwedd 2000 ac ar ôl i Weinidog y Cynulliad gytuno arno.

***Cydymffurfio***

Mae'n ofynnol i Cadw gynhyrchu Cynllun Corfforaethol o dan delerau'r Ddogfen Fframwaith sy'n diffinio ei chwmpas fel Asiantaeth Weithredol – nid oes sylfaen statudol. Cytunwyd ar gyllidebau Cadw eisoes yn ystod y rownd gyllido flynyddol. Nid oes unrhyw faterion cydymffurfio eraill.

***Themâu Torri Costau***

Mae Cadw'n cydweithio â nifer o gyrff eraill sy'n ymddiddori yn y dreftadaeth adeiledig ar drywydd amcanion cysylltiedig, ac adlewyrchir y rhain yn y Cynllun.

***Camau Gweithredu i'r Pwyllgor Pynciau***

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r Cynllun a'r targedau drafft a gwneud sylwadau arnynt, cyn i'r Ysgrifennydd Cynulliad eu hystyried.

***Enw Cyswllt***

Tom Cassidy, Prif Weithredwr Cadw: Welsh Historic Monuments.

**Cadw**

**Chwefror 2001**

**CYNLLUN CORFFORAETHOL A THARGEDAU STRATEGOL CADW**

**Nodau**

Nodau Cadw, fel a nodir yn ei ddogfen fframwaith, yw:

- sicrhau y diogelir ac y cedwir y dreftadaeth adeiledig yng Nghymru, er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol;
- cynnal yr henebion sydd yng ngofal y Cynulliad Cenedlaethol, a'u cyflwyno i'r cyhoedd fel y gallant eu gwerthfawrogi, eu mwynhau a dysgu ohonynt;
- ennill incwm i wneud iawn am gostau'r gweithgareddau hyn.

Caiff y rhain eu crynhoi yn y datganiad: "Amddiffyn, cadw a hybu gwerthfawrogiad o dreftadaeth adeiledig Cymru". Mae'r ddogfen fframwaith yn nodi saith prif amcan ar gyfer yr Asiantaeth wrth weithio tuag at ei nodau.

**Amcanion**

*1. Hybu'r gwaith o ddiogelu adeiladau o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig trwy arfer grymoedd statudol y Cynulliad Cenedlaethol i restru adeiladau o'r fath, trwy weithredu'r gweithdrefnau caniatâd statudol ar gyfer adeiladau rhestredig, a thrwy roi cyngor a chymorth ariannol mewn perthynas â chynnal a chadw adeiladau.*

1.1 Cwblhawyd yr arolwg thematig o gapeli yng Nghymru yn brydlon y llynedd –mae pob un bellach wedi'i asesu er mwyn ei restru. Fel rhan o'r rhaglen gyffredinol i ailarolygu rhestr statudol yr adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, mae Cadw'n bwriadu cwblhau 80 o restrau cymunedol yn 2001-02. Mae Cadw'n cydnabod bod gan ardaloedd yng Nghymru a chyfnodau yn ei hanes hunaniaeth benodol, ac adlewyrchir hyn yng nghyfansoddiad cyffredinol y rhestrau cymunedol. Datblygir y rhaglen trwy restru contractwyr yn unol â chanllawiau a nodwyd gan Cadw ac a gaiff eu monitro gan ein Harolygwyr. Ein hamcan o hyd fydd cwblhau'r gwaith ailarolygu erbyn 2005.

1.2 Yn y cyfamser, bydd Cadw'n parhau i ymateb i geisiadau i ystyried rhestru adeiladau unigol cyn yr ailarolwg cyffredinol pan fyddant dan fygythiad. Ein targed presennol yw penderfynu ar 75% o achosion rhestru ad hoc o fewn 17 wythnos – ni fydd pob un o'r achosion hyn yn cynnwys adeiladau sydd dan fygythiad, ond pan fydd adeilad dan fygythiad ein bwriad fydd ymateb yn gyflymach. Yn 2001-02 rydym yn bwriadu adolygu'r targed fel ei fod yn adlewyrchu'r ffaith honno, ac yn gofyn mwy gennym o ran canran yr achosion yr ydym yn anelu at benderfynu arnynt o fewn yr amserlen ddewisedig. Ein hamcan fydd penderfynu ar 90% o achosion rhestru pan fydd adeiladau dan fygythiad o fewn deg wythnos a 90% o achosion rhestru *ad hoc* eraill o fewn 17 o wythnosau.

1.3 Wrth i'r broses ailarolygu gyflymu, mae nifer y ceisiadau caniatâd mewn perthynas ag adeiladau rhestredig yn cynyddu. Bydd Cadw yn ceisio ymdrin ag 80% o achosion caniatâd mewn perthynas ag adeiladau rhestredig o fewn 4 wythnos a 90% o fewn saith wythnos. Ar ddechrau 2001-02 bwriad Cadw yw lansio ymarfer ymgynghori ynghylch y cwestiwn a ddylid dirprwyo'r hawl i benderfynu ar achosion caniatâd mewn perthynas ag adeiladau rhestredig (Gradd II nad ydynt yn cynnwys chwalu adeilad) i awdurdodau lleol – ac ar ba delerau.

1.4 Mae Cadw’n ffynhonnell cyngor a gwybodaeth i’r rhai hynny yng Nghymru sydd â chyfrifoldebau statudol am y dreftadaeth adeiledig – fel swyddogion awdurdodau lleol – ac aelodau o’r cyhoedd sydd â diddordeb yn y maes. Rydym wedi atgyfnerthu ein cysylltiadau ag awdurdodau lleol trwy sefydlu Fforwm Treftadaeth Adeiledig ar gyfer swyddogion cadwraeth, sy’n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Cynigiwyd cymorth grant i awdurdodau lleol i dalu 80% o gostau creu cofrestrau o adeiladau sydd mewn perygl. Hyd yn hyn clustnodwyd neu darparwyd cymorth ar gyfer 16 o brojectau lleol, a byddwn yn annog awdurdodau eraill i ymateb mewn modd cadarnhaol.

1.5 Yn unol â chyngor y Cyngor Adeiladau Hanesyddol, mae Cadw’n cynnig cymorth grant bob blwyddyn ar gyfer atgyweirio strwythurau hanesyddol i berchnogion preifat ac awdurdodau lleol, enwadau crefyddol a’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Bydd yr Asiantaeth yn cynnal ei thargedau i benderfynu ar 80% o’r ceisiadau am grant adeiladau hanesyddol o fewn deunaw wythnos, ac i dalu 90% o’r ceisiadau a gyflwynir yn gywir o fewn pum wythnos ar ôl eu derbyn. Y llynedd adolygwyd y cynllun grant adeiladau hanesyddol er mwyn galluogi Cadw i dargedu grantiau’n well, a chyflwynwyd rheoliadau monitro gwell. Fel rhan o’r fenter hon cychwynnwyd ar broject i gyfrifiaduro’r gronfa ddata adeiladau hanesyddol ac fe’i cwblheir yn ystod 2001-02.

1.6 Byddwn yn parhau i gydweithio â Chronfa Treftadaeth y Loteri i amlhau i’r eithaf y buddion a ddaw i Gymru o’i menter trefluniau, ac ag awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer trefi. Bydd pob un o’r rhain yn seiliedig ar strategaeth cadwraeth leol a chynllun i gyflawni’r strategaeth. Bydd Cadw’n gweithio â’r Eglwys yng Nghymru ac Ymddiriedolaeth Adeiladau Crefyddol Cymru i sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir i ofalu am yr enghreifftiau gorau ymhlith yr eglwysi a chapeli diangen yn llwyddiannus.

*2 Hybu’r gwaith o gofnodi a chadw henebion trwy arfer grymoedd statudol y Cynulliad Cenedlaethol i gofrestru henebion o’r fath, trwy weithredu’r gweithdrefnau caniatâd ar gyfer henebion cofrestredig, a thrwy roi cyngor a chymorth ariannol mewn perthynas â chynnal a chadw henebion nad ydynt yng ngofal y Cynulliad Cenedlaethol.*

2.1 Mae Cadw’n bwriadu cwblhau 120 o weithrediadau cofrestru yn 2001-02, a bydd o leiaf 90% o’r rhain yn cynnwys amddiffyniad ychwanegol. Yn dilyn argymhelliad gan Bwyllgor Archwilio’r Cynulliad Cenedlaethol, bwriad Cadw fydd sicrhau y cofrestrir y rhan fwyaf o’r henebion mwy adnabyddus yng Nghymru dros y chwe blynedd nesaf. Yn ystod y cyfnod hwnnw bydd Cadw’n mynd i’r afael â’r grŵp mwyaf sy’n weddill o henebion adnabyddus y mae angen eu hystyried o hyd ar gyfer eu cofrestru, sy’n cynnwys 5,000 o safleoedd cynhanesyddol (yn bennaf tomenni claddu, cylchoedd cerrig a meini hirion). Byddwn yn ariannu pedair Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru i ymgymryd â rhaglen asesu, er mwyn ein galluogi i gynyddu’n sylweddol nifer y safleoedd a gofrestrir.

2.2 Bydd yr Asiantaeth hefyd yn cefnogi gwaith achub archeolegol ledled Cymru trwy roi

cymorth grant i’r Ymddiriedolaethau Archeolegol gynnal gwaith maes ar safleoedd sydd dan fygythiad, a rhoi cyngor ar effaith archeolegol cynigion cynllunio.

2.3 Bwriadwn gynnal y cylch pum-mlynedd o ymweliadau â safleoedd cofrestredig gan wardeiniaid henebion maes, fydd yn golygu ymweliadau ag 20% o henebion yn ystod y flwyddyn a delio â phwysau cynyddol – mae nifer y safleoedd yn tyfu wrth i’r rhaglen fynd yn ei blaen - trwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth yn fwy effeithiol o fewn Cadw, trwy ddatblygu’r gronfa ddata gyfrifiadurol o henebion cofrestredig er enghraifft. Bydd cymorth ariannol ar gael i gynnal a chadw’r henebion a’r safleoedd archeolegol nad ydynt yng ngofal y Cynulliad Cenedlaethol drwy gyfrwng grantiau henebion a chytundebau rheoli. Yn benodol, bydd Cadw’n rhoi cymorth ariannol i raglen i fonitro a gwella’r modd y rheolir Clawdd Offa. Ein nod yw penderfynu ar 80% o achosion grantiau henebion o fewn chwe wythnos a thalu 90% o’r ceisiadau a gyflwynwyd yn gywir o fewn pum wythnos ar ôl eu derbyn.

2.4 Byddwn yn cynyddu’r targed sy’n delio ag amseroldeb achosion caniatâd mewn perthynas â henebion cofrestredig, a’n nod fydd ymdrin â 90% ohonynt (75% o’r blaen) o fewn tair wythnos ar ddeg.

2.5 Bydd Cadw’n gweithio gydag asiantaethau a sefydliadau cefn gwlad, awdurdodau lleol a chenedlaethol a chwmnïau cyfleustodau er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i’r amgylchedd hanesyddol wrth iddynt lunio a gweithredu eu polisïau. Byddwn yn cyfrannu at y gwaith o weithredu a datblygu cynllun Tir Gofal (menter amaeth-amgylcheddol) ac yn cydweithio â Chyngor Cefn Gwlad Cymru wrth weithredu’r agweddau hynny ar y cynllun sy’n ymdrin â’r amgylchedd hanesyddol.

2.6 Cyhoeddwyd ail ran - a rhan olaf - y Gofrestr Tirweddau yn gynharach eleni, ac yn 2001-02 byddwn yn cyhoeddi cyfrol olaf y Gofrestr Parciau a Gerddi, sy’n delio â Dyfed. Bydd yr Asiantaeth yn rhoi cyngor i awdurdodau lleol ar geisiadau cynllunio yn ymwneud â thir a gynhwysir yn y Cofrestrau. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o lyfrynnau yn y gyfres *Gofalu am …..* ac yn defnyddio gwefan yr Asiantaeth i ledaenu canlyniadau ein gwaith a gwaith sefydliadau eraill y byddwn yn rhoi cymorth grant iddynt.

*3. Cynnal yr henebion hynny sydd yng ngofal y Cynulliad Cenedlaethol mewn ffordd sy’n gyson â’u pwysigrwydd archeolegol a hanesyddol ac sy’n rhoi gwerth am arian.*

3.1 Mae Cadw’n cynnal 127 o henebion sydd yng ngofal y Cynulliad Cenedlaethol, ac fe wna hyn yn unol â rhaglen waith sy’n seiliedig ar gynnal Arolwg bod Pum-mlynedd o anghenion ar draws yr ystad gyfan ac o gynlluniau rheoli henebion unigol.Wrth gyflawni gwaith cadwraeth (yn yr un modd ag y darparwn grant am waith atgyweirio hanesyddol i adeiladau nad ydynt yn ein gwarchodaeth neu ein meddiant) rydym yn adlewyrchu polisi’r Cynulliad Cenedlaethol o gynaladwyedd wrth gynllunio rhaglen waith, ac o ran y dewis o ddeunyddiau, natur yr ymyrraeth a’r defnydd a wneir o adeiladau ar ôl hynny. Bydd Cadw’n parhau i ddefnyddio ei

weithlu ei hun a gyflogir yn uniongyrchol (Cadwraeth Cymru) yn ogystal â chontractwyr arbenigol yn y gwaith hwn. Amcan yr Asiantaeth fydd cwblhau 90% o'r rhaglen cynnal a chadw cadwraeth yn 2001-02. Byddwn yn parhau i weithio gyda chymunedau lleol a'r heddlu i fynd i'r afael â phroblem fandaliaeth ar rai safleoedd.

3.2 Mae'r prosiectau mawr yn cynnwys parhau i atgyfnerthu Gweithfeydd Haearn Blaenafon, a gwaith parhaus yng Nghaerffili, Cas-gwent, Tyndyrn, Tyddewi a Rhuddlan. Cwblhawyd y gwaith atgyfnerthu ar dþ neuadd canoloesol Hafoty (ar ynys Môn), Castell Dolforwyn (ger y Drenewydd) a Phorth Burgess Dinbych y llynedd, a chwblheir prosiectau yng Nghastell Dinefwr a Chastell Caernarfon (y Tŏr Du) erbyn haf 2001. Cychwynnir ar waith newydd yng Nghydweli a Threfaldwyn ac adeiledir canolfan ymwelwyr newydd yng Nghastell Caerffili.

3.3 Ymgymerir â dau brosiect ar hugain gan ddefnyddio gweithwyr mewnol, wedi'u trefnu'n saith tîm rhanbarthol (Gorllewin a Dwyrain Morgannwg, Gogledd Gwent a Sir Fynwy, Gorllewin Cymru, Canolbarth Cymru a Gogledd Ddwyrain Cymru). Caiff saith prosiect arall, sy'n werth dros £100,000 yr un, eu rhoi allan ar gontract.

3.4 Ar ôl arolygu agweddau ar ddiogelwch y cyhoedd, cyflwynwyd system newydd o arwyddion yn rhybuddio am beryglon ac yn ystod 2001-02 fe'i gosodir mewn 72 o henebion.

*4. Rhoi gwybodaeth, addysgu a denu ymwelwyr i henebion sydd yng ngofal y Cynulliad Cenedlaethol trwy farchnata, cyflwyno a dehongli; a chynorthwyo mwy o bobl i ddeall a gwerthfawrogi treftadaeth adeiledig Cymru'n well.*

4.1 Mae ymdrechion marchnata Cadw'n cydnabod pa mor bwysig yw'r henebion i waith Awdurdod Twristiaeth Prydain, Bwrdd Croeso Cymru, awdurdodau lleol a chwmnïau twristiaeth rhanbarthol, consortia marchnata ac eraill sy'n ymwneud â marchnata Cymru, Mae cestyll Cymru'n "bwynt gwerthu unigryw", a byddwn yn parhau i weithio gyda Bwrdd Croeso Cymru a sefydliadau eraill er mwyn dilyn amcanion marchnata a chorfforaethol.

4.2 Cyflogir staff mewn tri deg un o safleoedd yn ystod y flwyddyn. Rheolir un ar hugain o'r safleoedd gan geidwaid Cadw, a'r deg arall gan asiantau yn gweithio dan gontract i Cadw. Byddwn yn cynnal y targed o ddenu cyfran o'r farchnad o 63% o nifer yr ymwelwyr â'r ugain safle treftadaeth mwyaf poblogaidd yng Nghymru.

4.3 Agorir Castell Dolforwyn a Hafoty i'r cyhoedd yn ystod 2001-02. Darperir dehongliad hanesyddol newydd yng Ngweithfeydd Haearn Blaenafon, Castell Coch a Phriordy Ewenni, a datblygir arddangosfeydd newydd yn Abaty Ystrad Fflur a Chastell Dolwyddelan. Gosodir paneli dehongli newydd neu baneli eraill yn lle'r rhai presennol mewn mwy nag 20 o safleoedd ledled Cymru a chyflenwir rhai safleoedd, gan gynnwys Cwrt a Chastell Tre-tŏr, â systemau taith clywedol newydd. Diwygir ac ailargreffir pedwar arweinlyfr yng ngoleuni ymwchwil newydd, a chyhoeddir yr arweinlyfr Cymraeg newydd i gestyll ac abatai Deheubarth yn 2001 (y

bwriadwyd ei gyhoeddi'n wreiddiol yn 2000).

4.4 Byddwn yn cyhoeddi ac yn dosbarthu tua 3.5 miliwn o eitemau o lenyddiaeth hyrwyddo ddwyieithog, gan gynnwys pamffledi rhanbarthol a thaflenni sy'n benodol i safleoedd. Byddwyn hefyd yn ymuno â chymdeithasau twristiaeth a chonsortia marchnata er mwyn hyrwyddo safleoedd Cadw. Fel rhan o'n hymdrechion i addysu a hysbysu pobl, mae Cadw yn darparu nifer o wasanaethau i ysgolion, gan gynnwys pecynnau adnoddau un pwrpas a thaflenni gwaith ar gyfer rhai safleoedd. Mae rhan o'r deunydd ar ein gwefan yn benodol at ddefnydd ysgolion, ac ychwanegir model realiti ymddangosol o Abaty Tyndyrn ato yn ystod y flwyddyn.

*5. Cynhyrchu cymaint o incwm ag y bo modd trwy weithredu henebion dan ei gofal mewn ffordd sy'n gyson â dyletswyddau cadwraeth yr Asiantaeth.*

5.1 Bedair blynedd yn ôl cyflwynodd Cadw darged i leihau'r diffyg incwm dros wariant sy'n gysylltiedig â chyflwyno henebion i'r cyhoedd. Ar wahân i gostau cadwraeth, mae mwy o arian yn cael ei wario ar eu cyflwyno (er enghraifft, costau staff a phaneli gwybodaeth) nag sy'n cael ei dderbyn fel incwm ohonynt, felly gellir cyfrifo "cost net fesul ymwelydd". Mae'r targed yn rhoi premiwm ar weithredu'n gost effeithiol tra'n annog yr Asiantaeth i gynyddu nifer yr ymwelwyr. Roedd y "gost net fesul ymwelydd" ar ei huchaf ganol y 1990au ar lefel o 51 ceiniog, ond gostyngodd i 27 ceiniog ym 1999-2000. Gosodwyd targed o 25 ceiniog ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, ond nid ydym yn debygol o'i gyflawni gan fod nifer yr ymwelwyr wedi gostwng dros yr haf a'r hydref. (Dioddefodd atyniadau ymwelwyr eraill hefyd ac arhosodd ein cyfran o'r farchnad yr un fath.) Nid ydym yn argymell newid y targed o 25 ceiniog yn 2001-02.

5.2 Codir tâl mynediad mewn tri deg un o safleoedd. Cynyddir prisiau tocynnau mynediad, a phrisiau deunydd wedi'i argraffu a gwasanaethau i'r cyhoedd (megis gosod adeiladau), yn unol â chwyddiant.

5.3 Mae'r Asiantaeth wedi gosod targed iddi'i hun i dderbyn £3,576,000 mewn incwm yn 2001-02, gan gynnwys yr elfennau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Tocynnau mynediad a gwerthiant | £ | 3,220,000 |
| Derbyniadau gan Gronfa Treftadaeth y Loteri a chyrff eraill | £ | 60,000 |
| TAW a adenillwyd | £ | 296,000 |

*6. Sicrhau y cedwir cost net gweithgareddau'r Asiantaeth o safbwynt arian cyhoeddus mor isel ag y bo modd.*

6.1 Mae cyllideb rhaglen net o £6,350,000 ar gael i Cadw yn 2001-02 – yr un ffigur â’r flwyddyn bresennol. Ynghyd â’r derbyniadau a enillir, fe’i dosberthir fel a ganlyn. (Ceir £4,680,000 yn ychwanegol yn y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer costau rhedeg.)

| | | |
|---|---|---|
| Grantiau Henebion ac Adeiladau Hanesyddol | £ | 3,993,000 |
| Contractau Rhestru | £ | 250,000 |
| Archeoleg a mentrau cysylltiedig | £ | 1,254,000 |
| Cynnal a chadw a datblygu gwaith cadwraeth | £ | 2,831,000 |
| Gwaith cyflwyno | £ | 1,598,000 |
| | £ | 9,926,000 |
| Derbyniadau | £ | 3,576,000 |
| Darpariaeth net ar gyfer rhaglenni | £ | 6,350,000 |
| Costau rhedeg | £ | 4,680,000 |

6.2 Er bod Cadw wedi contractio nifer o wasanaethau cynnal "yn ôl" i ddarparwyr canolog yn y Cynulliad Cenedlaethol, mae’r Asiantaeth yn parhau i fod yn uniongyrchol gyfrifol am waith monitro a rheoli ariannol, am sicrhau y cydymffurfir â gweithdrefnau’r sector cyhoeddus, y rhan fwyaf o agweddau ar reoli personél, penodiadau cyhoeddus i gyrff treftadaeth adeiledig, a threfniadau caffael nwyddau a gwasanaethau. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein trefniadau caffael a chydymffurfio er mwyn cryfhau ymhellach ein systemau atebolrwydd, yn arbennig er mwyn cydymffurfio â gofynion newydd ynglþn â rheolaeth gorfforaethol. Dyfarnwyd statws Buddsoddwr mewn Pobl i’r Asiantaeth yn 2000, a byddwn yn comisiynu asesiad prawf o’r modd yr ydym yn glynu wrth safonau Buddsoddwyr mewn Pobl er mwyn paratoi ar gyfer asesiad ffurfiol yn 2002-03. Mae’n debygol mai un rhan allweddol o’r broses dros y flwyddyn nesaf fydd datblygu systemau a dulliau rheoli fel rhan o’r cynllun Gwell Llywodraeth, gan ymgynghori â’r staff.

6.3 Fel Asiantaeth Weithredol, bydd gofyn i Cadw weithio o leiaf 2% yn fwy effeithiol yn 2001-02. Mesurir newidiadau mewn cynhyrchiant gan ddefnyddio mynegai perfformiad a fydd yn ymdrin â’r rhan fwyaf o weithgareddau’r Asiantaeth. Arolygir Asiantaethau Gweithredol yn gyson er mwyn sicrhau bod eu statws yn parhau yn briodol a bod eu hamcanion yn cael eu cyflawni. Arolygwyd Cadw ddiwethaf ym 1994-95, a bydd yn destun arolwg arall yn 2001-02.

*7. Cyflawni'r targedau ariannol ac unrhyw dargedau perfformiad eraill y gellid eu pennu.*

7.1 Mae'r Asiantaeth yn bwriadu cynyddu targedau 3 a 6 yn y flwyddyn sydd i ddod.

1. Cwblhau 90 y cant o'r rhaglen cynnal a chadw cadwraeth a gymeradwywyd.

2. Cwblhau 80 o ailarolygon.

3. Penderfynu ar 90 y cant o achosion rhestru lle y mae adeiladau o dan fygythiad o fewn 10 wythnos a 90 o achosion eraill o fewn 17 o wythnosau.
4. Cwblhau 120 o weithrediadau cofrestru, y mae o leiaf 90 y cant ohonynt yn cynnwys amddiffyniad ychwanegol.
5. Penderfynu ar 80 y cant o geisiadau caniatâd ar gyfer adeiladau rhestredig o fewn 4 wythnos a 90 y cant o fewn 7 wythnos.
6. Penderfynu ar 90 y cant o geisiadau caniatâd ar gyfer henebion cofrestredig o fewn 13 wythnos.
7. Penderfynu ar 80 y cant o geisiadau am grant adeiladau hanesyddol o fewn 18 wythnos.
8. Penderfynu ar 80 y cant o geisiadau am grant henebion o fewn 6 wythnos.
9. Talu 90 y cant o'r ceisiadau a gyflwynir yn gywir ar gyfer grantiau adeiladau hanesyddol a henebion o fewn 5 wythnos ar ôl eu derbyn.
10. Ennill cyfran o'r farchnad o 63 y cant o nifer yr ymwelwyr â'r ugain safle treftadaeth mwyaf poblogaidd yng Nghymru.
11. Gostwng y gost net uniongyrchol fesul ymwelydd â safleoedd Cadw i 25 ceiniog ar gyfartaledd.
12. Gweithredu o fewn y cyllidebau rhaglen a chostau rhedeg a ddyrannwyd.

13. Gweithredu o leiaf 2 y cant yn fwy effeithiol.

**Cadw**

**Chwefror 2001**

**ATODIAD A**

**TARGEDAU'R ASIANTAETH 2000-01**

**Targed Canlyniad Canlyniad Tebygol**

1. **2000-01**

1 Cwblhau 90% o’r Rhaglen Cynnal a Chadw 91% 90-92%

Cadwraeth

*Mae’r rhaglen flynyddol hon yn cynnwys rhestr o*

*brosiectau i gynnal a chadw ac atgyfnerthu*

*henebion sydd yng ngofal yr Asiantaeth, y mae*

*contractwyr allanol yn ogystal â gweithwyr*

*Cadw a gyflogir yn uniongyrchol yn gysylltiedig*

*â hwy. Llunnir y rhaglen gan Brif Bensaer*

*Cadw ac fe’i cadarnheir gan y Bwrdd Henebion*

2 Cwblhau 80 o Restrau Ailarolwg 80% 80-82%

*Rydym yn sôn am restrau "ail"arolwg gan fod*

*Arolwg cynharach (ac anghyflawn iawn) o*

*Gymru wedi’i gynnal yn y 1960au. Mae 866*

*o ardaloedd cymunedol yng Nghymru, ac*

*mae angen cwblhau rhestr ar gyfer pob un*

*ohonynt. Roedd 514 wedi’u cwblhau hyd at fis*

*Medi 2000. Rhestrir tua 1,200 o eiddo unigol*

*bob blwyddyn. Contractiwyd y gwaith allan,*

*ond fe’I goruchwylir gan Cadw.*

3 Penderfynu ar 75% o achosion rhestru ad hoc 95% 90-95%

o fewn 17 o wythnosau

*Rhestrir adeiladau ad hoc (neu'n fwy cyffredin,*

*fe'u rhestrir yn y fan a'r lle) y tu allan i'r rhaglen*

*ailarolygu ac mewn ymateb i'r bygythiad y*

*dymchwelir neu y newidir rhyw adeilad o bwys*

*y daw Cadw yn ymwybodol ohono.*

*Swyddogion Cadw ei hun sy'n ymgymryd â'r*

*Gwaith hwn*

4 Cwblhau 120 o weithrediadau cofrestru y mae 121 120-125

o leiaf 90% ohonynt yn cynnwys amddiffyniad 97% 90-95%

ychwanegol

*Mae cofrestru henebion ac olion archeolegol yn*

*eu diogelu. Gwahaniaethir rhwng achosion sy'n*

*cynnwys amddiffyniad ychwanegol ac achosion*

*eraill oherwydd y gallai'r weithred – er enghraifft*

*– olygu datgofrestru heneb.*

**1999-2000 2000-2001**

5 Penderfynu ar 80% o achosion caniatâd mewn 85% 85%

perthynas ag adeiladau rhestredig o fewn 92% 95%

pedair wythnos a 90% o fewn saith wythnos

*Pan fydd awdurdodau lleol yn penderfynu rhoi*

*caniatâd cynllunio mewn perthynas ag*

*adeiladau rhestredig, mae'n rhaid iddynt ein*

*hysbysu, a gellir dewis eu 'galw i mewn' er*

*mwyn i'r Cynulliad benderfynu arnynt.*

*Ym 1999-2000 ystyriwyd 832 o achosion.*

6 Penderfynu ar 75% o achosion caniatâd mewn 88% 90-95%

perthynas â henebion cofrestredig o fewn 13 95% 90-95%

o wythnosau a 90% o fewn 17 o wythnosau

*Mae angen caniatâd ar y rhan fwyaf o waith a*

*wneir i henebion, a Cadw sy'n ymdrin ag*

*achosion o'r fath (yn hytrach nag awdurdodau*

*lleol)*

7 Penderfynu ar 80% o geisiadau am grant 80% 85%

adeiladau hanesyddol o fewn 18 o wythnosau

*Mae grantiau adeiladau hanesyddol ar gael*

*i gadw adeiladau 'eithriadol' a'r*

*adeiladau hynny sy'n gwneud cyfraniad i*

*ardaloedd cadwraeth. Nid yw'r ddeddfwriaeth*

*yn diffinio "eithriadol" a'r Cyngor Adeiladau*

*Hanesyddol, s’n ystyried pob cais, sy’n*

*barnu ar y mater hwn*

8 Penderfynu ar 80% o geisiadau am grant 82% 85%

henebion o fewn 6 wythnos

*Mae grantiau henebion i awdurdodau lleol a*

*pherchenogion preifat yn amrywio o Gastell*

*Aberystwyth i olion mwy dinod*

9 Talu 90% o geisiadau am grant adeiladau 92% (ah) 90-95%(ah)

hanesyddol a henebion a gyflwynir yn 96%(h) 90-95%(h)

gywir o fewn 5 wythnos

*Hunanesboniadol. Mae angen rhywfaint o*

*wirio ar bob achos, ac mae rhai achosion*

*yn galw am ymweliadau*

**1999-2000 2000-2001**

10 Sicrhau cyfran o’r farchnad o 63% o nifer 62% 64-65%

yr ymwelwyr â’r 20 o safleoedd traddodiadol

mwyaf poblogaidd

*Mae’r "ugain o safleoedd mwyaf poblogaidd"*

*yn cynnwys tri eiddo ar ddeg o eiddo Cadw,*

*pump o eiddo yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol*

*a Chastell Caerdydd a Chastell Penfro*

11 Gostwng y gost net fesul ymwelydd i 25c 27c Annhebygol

y'i cyflawnir

*Ar wahân i gostau cadwraeth, mae costau*

*staffio a chyflwyno'r henebion sydd yn ein*

*gofal i'r cyhoedd yn fwy na'r derbyniadau*

*a enillant, ac felly gellir cyfrifo "cost fesul*

*ymwelydd"*

12 Gweithredu o fewn cyllidebau rhaglen Rhag 93% Tebygol

a chostau rhedeg uniongychol a ddyrannwyd CRhU 97% y'i cyflawnir

*Hunanesboniadol*

13 Gweithredu o leiaf 2% yn fwy effeithiol 2% Tebygol

y'i cyflawnir

*Hunanesboniadol. Cyfrifir newidiadau mewn*

*cynhyrchiant ar sail mynegai perfformiad sy'n*

*ymgorffori pedwar ar ddeg o brif feysydd*

*gweithgarwch Cadw*